

26/03/21

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae hi wedi bod yn bythefnos lwyddiannus iawn wrth i ni groesawu ein disgyblion yn ôl i'r ysgol a braf o beth yw bod pob disgybl wedi cael y cyfle i fynychu. Mae ymateb eich plant wedi bod yn arbennig wrth iddynt ail gysylltu gyda'u dysgu a chyfarwyddo gyda'r mesurau Cofid yn yr ysgol, yn union fel yr oeddem yn disgwyl oddi wrth ein disgyblion aeddfed a gofalgar.

Fel y gwyddoch yn barod, ([LLythyr-i-rieni-080321.pdf \(bryntawe.swansea.sch.uk\)](https://www.bryntawe.swansea.sch.uk/LLythyr-i-rieni-080321.pdf)) bydd **pob disgybl yn dychwelyd i Fryn Tawe ar ddydd Mawrth y 13eg o Ebrill**. Serch hyn, bydd blynyddoedd **11, 12 a 13eg yn unig yn dechrau ar ddydd Llun y 12fed o Ebrill**, gyda ffocws ar baratoi ar gyfer yr asesiadau amrywiol sydd o'u blaenau yn ystod y tymor. Os oes unrhyw ddisgyblion o flynyddoedd 11, 12 a 13eg am astudio'n annibynnol adref, er mwyn dyfnhau eu dysgu ac i baratoi ymhellach ar gyfer yr asesiadau, mae yna waith yn eu 'Timau' dosbarth a blwyddyn i'w cefnogi gyda hyn. Byddwn yn cadarnhau dyddiadau allweddol pellach am y broses o raddau wedi'u pennu gan y ganolfan gyda chi cyn gynted ag y maent yn bendant ar ôl y Pasg.

Gan ein bod yn deall yr her i allu prynu eitemau o wisg ysgol yn ddiweddar, rydym wedi bod yn hyblyg gyda disgyblion sydd ddim bob tro wedi bod yn y wisg gywir. Gobeithiwn y bydd pob disgybl yn cael y cyfle i baratoi ar gyfer dychwelyd i'r ysgol yn y wisg gywir ar ôl y Pasg. Cofiwch fod y wisg ysgol ar gael o siop Bergoni yn Llansamlet ([Bryntawe – Bergoni](#)) ac maent yn darparu gwasanaeth clic a chasglu. Os oes cwestiwn gennych am y wisg, neu am gefnogaeth bellach gyda'r wisg, plis cysylltwch gyda ni i drafod.

Er mwyn sicrhau bod gan ein disgyblion fynediad i ddysgu o bell yn ystod y cyfnod clo, fe lwyddom i fenthyg dros 150 o liniaduron i'n disgyblion. Gan fod pawb yn dychwelyd ar y 13eg o Ebrill, mae'n bwysig ein bod yn eu derbyn yn ôl er mwyn gallu eu defnyddio mewn gwersi yn ddyddiol. A oes modd sicrhau bod eich plentyn yn dychwelyd y gliniadur maent wedi ei fenthyg drwy ei roi i Mr Omar Bechar yn yr ysgol? Os oes unrhyw gwestiwn neu broblem, plis cysylltwch gyda Mr Bechar ar BecharO@hwbcymru.net neu Mrs Nerys Vaughan ar VaughanN9@hwbcymru.net.

Fel y soniais, gwych o beth oedd clywed bwrlwm disgyblion ar hyd coridorau'r ysgol dros y bythefnos ddiwethaf ac edrychwn ymlaen yn fawr at allu croesawu pob disgybl yn ôl i'r ysgol ar ôl y Pasg. Os oes unrhyw gwestiwn gennych yn y cyfamser, peidiwch oedi cyn cysylltu. Pasg Hapus i chi!

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies

